

Cynulleidfa darged

plant 5-7 oed

Ar gyfer pob cwestiwn, dewiswch UN ateb:

Cwestiwn 1: Pwy sy'n gallu rhoi lluniau a fideos ar y rhyngrwyd?

- A. Dim ond oedolion
- B. Dim ond pobl ifanc yn eu harddegau
- C. Unrhyw un
- D. Dim ond plant

Cwestiwn 2: Pan rennir llun neu fideo ar y rhyngrwyd, am faint o amser y mae'n gallu aros yno?

- A. Am byth
- B. Mis
- C. Diwrnod
- D. Blwyddyn

Cwestiwn 3: Pa rai o'r rhain yw'ch gwybodaeth bersonol chi?

- A. Eich enw a'ch cyfeiriad
- B. Eich cyfrineiriau
- C. Enw eich ysgol
- D. Yr holl bethau hyn

Cwestiwn 4: Rydych yn dymuno rhoi hoff lun ar y rhyngrwyd. Pwy fydd yn rhaid i chi ofyn iddynt cyn i chi wneud hynny?

- A. Eich rhieni
- B. Neb
- C. Perchnogion y wefan
- D. Athro

Cwestiwn 5: Pwy ddylech chi ofyn iddynt am help os ydych yn gofidio am rywbeth yr ydych chi wedi'i weld ar-lein?

- A. Dim ond ffrind
- B. Unrhyw oedolyn yr ydych yn ymddiried ynddynt
- C. Dim ond brawd neu chwaer hŷn
- D. Dim ond athro

Cwestiwn 6: Mae chwaraewr arall mewn gêm wedi peri gofid i'ch ffrind. Sut mae modd i chi fod yn ffrind da a'u helpu?

- A. Dywedwch wrthynt i barhau i fod yn garedig ac i beidio bod yn greulon yn ôl iddynt.
- B. Dweud wrth oedolyn y mae'r ddau ohonoch yn ymddiried ynddynt.
- C. Atal y chwaraewr arall ac adrodd am eu hymddygiad ar-lein
- D. Yr holl bethau hyn!

Nawr trowch at y daflen atebion i weld a ydych chi'n ddechreuwr ar y rhyngrwyd neu'n arwr ar y rhyngrwyd!

Cwis Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel 2017

Taflen atebion

Gadewch i ni droi at yr atebion i weld sut y gwnaethoch chi!

Cwestiwn 1: Pwy sy'n gallu rhoi lluniau a fideos ar y rhyngrwyd?

Yr ateb cywir yw

A) Unrhyw un

Gall unrhyw un lanlwytho lluniau a fideos i'r rhyngrwyd, felly mae angen i chi fod yn ofalus iawn pan fyddwch ar-lein. Dylech ofyn i oedolyn yr ydych yn ymddiried ynddynt am help bob amser os bydd unrhyw beth yn peri i chi deimlo'n ofidus neu'n peri gofid i chi.

Cwestiwn 2: Pan gaiff llun neu fideo ei lanlwytho (ei roi) ar y rhyngrwyd, am ba mor hir y bydd yn aros yno?

Yr ateb cywir yw

A) Am byth

Ar ôl i chi roi rhywbeth ar-lein, gall aros yno am byth. Hyd yn oed os byddwch yn dewis dileu rhywbeth yr ydych chi wedi'i roi ar-lein, gallai unrhyw un sydd wedi'i weld wneud copi ohono, ei safio neu ei rannu eto. Nid yw'r rhyngrwyd fyth yn anghofio!

Cwestiwn 3: Pa rai o'r rhain yw'ch gwybodaeth bersonol chi?

Yr ateb cywir yw

A) Yr holl bethau hyn

Mae'ch gwybodaeth bersonol yn cynnwys nifer o wahanol bethau, fel eich enw llawn, eich dyddiad geni, cyfeiriad eich cartref a'ch ysgol, rhifau ffôn, cyfeiriadau e-bost, cyfrineiriau, ac enwau a chyfeiriadau eich ffrindiau hefyd. Dylech gadw'r rhain yn ddiogel trwy beidio eu rhoi ar y rhyngrwyd a pheidio eu rhannu gydag unrhyw un.

Cwestiwn 4: Rydych yn dymuno rhoi hoff lun ar y rhyngrwyd. Pwy fydd yn rhaid i chi ofyn iddynt cyn i chi wneud hynny?

Yr ateb cywir yw

A) Eich rhieni

Mae angen i'ch rhieni neu'ch gofalwyr gael gwybod os ydych yn dymuno rhoi rhywbeth ar y rhyngrwyd. Byddant yn gallu eich helpu i'w wneud yn y ffordd gywir, gan sicrhau eich bod yn gwybod pwy fydd yn gallu ei weld, a chadarnhau bod yr hyn a ddewiswyd gennych yn addas i eraill ei weld.

Cwestiwn 5: Pwy mae modd i chi ofyn iddynt am help os ydych yn gofidio am rywbeth yr ydych chi wedi'i weld ar y rhyngrwyd?

Yr ateb cywir yw

A) Unrhyw oedolyn yr ydych yn ymddiried ynddynt

Gallai oedolyn yr ydych yn ymddiried ynddynt fod yn rhiant, yn ofalwr, yn nain/mam-gu neu daid/tad-cu, yn fodryb neu ewythr, yn athro neu'n arweinydd tîm chwaraeon ac ati. Gall dweud wrth ffrind neu frawd neu chwaer hŷn eich helpu chi i deimlo'n well am rywbeth, ond gall oedolyn yr ydych yn ymddiried ynddynt roi'r cyngor gorau i chi.

Cwestiwn 6: Mae chwaraewr arall mewn gêm wedi peri gofid i'ch ffrind. Sut mae modd i chi fod yn ffrind da a'u helpu?

Yr ateb cywir yw

A) Yr holl bethau hyn!

Mae wastad yn bwysig bod yn garedig ar-lein, hyd yn oed os yw rhywun yn ceisio bod yn angharedig. Bydd oedolyn yr ydych yn ymddiried ynddynt yn gallu eich helpu i benderfynu ar yr hyn i'w wneud nesaf, fel atal yr unigolyn hwnnw a'u hadrodd, a bydd eich ffrind yn teimlo'n llawer gwell trwy wybod bod oedolyn yno i'w helpu.

Cyfrifwch eich sgôr!

Sgôr o 0 i 1 – Dechreuwr ar y rhyngrwyd

Rydych yn dechrau mwynhau bywyd ar-lein, ac yn gwybod bod llawer i'w ddysgu! Gofynnwch i oedolyn yr ydych yn ymddiried ynddynt am help wrth i chi ddefnyddio'r rhyngrwyd bob amser, a bydd modd i chi fwynhau'r daith gyda'ch gilydd.

Sgôr o 2 i 3 – Archwiliwr ar y rhyngrwyd

Rydych yn dechrau deall sut i fod yn ddiogel ac yn ffrind da ar-lein. Gofynnwch i oedolyn yr ydych yn ymddiried ynddynt am help bob amser pan fyddwch yn defnyddio'r rhyngrwyd, a bydd modd i chi fwynhau'r daith gyda'ch gilydd.

Sgôr o 4 i 5 – Anturiaethwr ar y rhyngrwyd

Rydych yn dysgu llawer iawn am y rhyngrwyd a'r holl bethau cyffrous a gynigir! Gofynnwch i oedolyn yr ydych yn ymddiried ynddynt am help bob amser pan fyddwch yn defnyddio'r rhyngrwyd, a bydd modd i chi fwynhau'r daith gyda'ch gilydd.

Sgôr o 6 – Arwr ar y rhyngrwyd!

Da iawn! Rydych gryn ffordd ar hyd y daith o fod yn ddefnyddiwr rhyngrwyd diogel, ac yn ffrind da iawn ar-lein! Gofynnwch i oedolyn yr ydych yn ymddiried ynddynt am help bob amser pan fyddwch yn defnyddio'r rhyngrwyd, a bydd modd i chi fwynhau'r daith gyda'ch gilydd.